Cyn cyhoeddi eu CSCA yn 2022 roedd yna 3 sir yn barod yn darparu mwy na 70% o addysg drwy gyfrwng y Gymraeg i blant blwyddyn 1 a roedd y ffigwr yma'n 98.5% yng Ngwynedd a 91.1% ar Ynys Môn.

Mae 13 Cyngor arall yn nodi eu bwriad i symud ysgolion ar hyd y continwwm o gategorïau cyfrwng Cymraeg dros y ddeng mlynedd nesaf yn eu CSCA. Mae rhai wedi dechrau ar y broses ar gyfer sawl ysgol yn barod tra bod eraill yn dechrau eu prosesau ymgynghori gyda rhanddeiliaid. Er nad oes sylwad penodol am symud categorïau yn rhai cynlluniau sydd wedi cael ei cyhoeddi, mae yna fwy o fanylder ar sut maent yn ehangu'r darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn yr ysgolion sydd ar gael yn barod a chynlluniau i agor ysgolion cyfrwng Cymraeg newydd.

Fel soniodd y Gweinidog yn ei ddatganiad ysgrifenedig, ar draws Cymru mae'r cynlluniau yma yn cynnwys datblygu 23 o ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg newydd ledled Cymru yn ogystal a chynlluniau i gynyddu capasiti 25 o ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg sydd eisoes yn bodoli.

Gwerth nodi hefyd, doedd y fframwaith categoreiddio i ysgolion heb ei gyhoeddi pryd oedd cynghorau yn dechrau mynd i'r afael a drafftio'r CSCA, felly er bod y fframwaith benodol yn ddefnyddiol bydd angen i gynlluniau symud ar hyd y continwwm iaith ddilyn prosesau craffu corfforaethol cynghorau, a mae sawl cyngor yn cychwyn y broses o ddadansoddi data ac ymgynghori gyda rhanddeiliaid ysgolion cyn gallu ymrwymo i'r newidiadau hoffant neud.

Cynghorydd Darren Price

Arweinydd y Cyngor

Cyngor Sir Gâr

Cynghorydd Sir Gorslas